# Y Pwyllgor Busnes

**Cofnodion BC(3)09-08**

**Dyddiad:** Dydd Mawrth 8 Ebrill 2008

**Amser:** 8.30 a.m.

**Lleoliad:** Ystafell Gyfarfod y 4ydd Llawr, Yr Uned Gorfforaethol

**Aelodau'r Cynulliad yn bresennol**

Dafydd Elis-Thomas, Y Llywydd (Cadeirydd)

Carwyn Jones, Arweinydd y Tŷ

Jocelyn Davies, Rheolwr Busnes Plaid Cymru

William Graham, Rheolwr Busnes y Ceidwadwyr Cymreig

Kirsty Williams, Rheolwr Busnes Democratiaid Rhyddfrydol Cymru

**Swyddogion yn bresennol**

Adrian Crompton, Cyfarwyddwyr Busnes y Cynulliad

Siwan Davies, Pennaeth Gwasanaethau'r Siambr a Deddfwriaeth

Aled Eirug, Ymgynghorydd Cyfansoddiadol

Marion Stapleton, Swyddfa Arweinydd y Tŷ

Marc Wyn Jones, Clerc y Pwyllgor Busnes

**1. Ymddiheuriadau a chyhoeddiadau**

**2. Cofnodion y cyfarfod blaenorol**

**(i) BC(3)08-08 (Cofnodion drafft) - Dydd Mawrth 11 Mawrth 2008**

2.1 Cyflwynwyd y cofnodion i'r pwyllgor ar eu ffurf ddrafft. Gan nad oedd unrhyw sylwadau, cânt eu cyfieithu yn barod i gael eu cyhoeddi.

**Camau i'w cymryd: Ysgrifenyddiaeth y Pwyllgor Busnes**

**3. Busnes i ddod**

**Busnes yr wythnos hon - BC(3)09-08(p1)**

3.1 Dywedodd Arweinydd y Tŷ y byddai Prif Weinidog Cymru yn gwneud datganiad am Gynllun Cyflenwi Cymru'n Un ddydd Mawrth. Byddai hyn yn lle'r ddadl ar y sector cyhoeddus yng Nghymru.

3.2 Cytunodd y pwyllgor y byddai cynnig i atal Rheolau Sefydlog yn cael ei gyflwyno ddydd Mercher, er mwyn cynnig ethol Nerys Evans fel Aelod o'r Pwyllgor Darlledu yn lle Alun Ffred Jones.

3.3 Cytunodd y Pwyllgor na chaiff y cyfnod pleidleisio ei gynnal cyn 5pm ddydd Mercher ar gyfer busnes y Cynulliad a busnes heblaw busnes y Llywodraeth.

3.4 Nodwyd y drefn busnes ar gyfer 8 a 9 Ebrill 2008 gan y pwyllgor.

**Amserlen busnes y Llywodraeth ar gyfer y tair wythnos nesaf - BC(3)08-08(p2)**

3.5 Nodwyd amserlen busnes y Llywodraeth ar gyfer y tair wythnos nesaf gan y pwyllgor.

**Amserlen busnes y Cynulliad a busnes heblaw busnes y Llywodraeth ar gyfer y tair wythnos nesaf - BC(3)08-08(p3)**

3.6 Cytunodd y pwyllgor ar drefn busnes y Cynulliad.

3.7 Cytunodd y pwyllgor ar drefn busnes heblaw busnes y Llywodraeth.

**4. Gorchmynion Cymhwysedd Deddfwriaethol a Mesurau Cynulliad**

**Papur eglurhaol gan y Gweinidog ac amserlen arfaethedig ar gyfer y "Mesur Arfaethedig ynghylch Teithio gan Ddysgwyr**

**(Cymru)" - BC(3)09-08(p4)**

4.1 Trafodododd y Pwyllgor Busnes bapurau'r '"Mesur Arfaethedig ynghylch Teithio gan Ddysgwyr (Cymru)"'. Nododd y Pwyllgor Busnes fod y Pwyllgor Menter a Dysgu eisoes wedi cynnal gwaith craffu cyn deddfu ar y Mesur, a chytunwyd y byddai'r Mesur yn symud ymlaen i Ddadl Cyfnod 1 yn y cyfarfod llawn ar yr egwyddorion cyffredinol. Mae dadl Cyfnod 1 wedi'i drefnu ar gyfer dydd Mawrth 22 Ebrill 2008. Cytunodd y Pwyllgor Busnes y byddai'r ddadl yn cael ei gohirio tan 29 Ebrill i roi cyfle i'r Pwyllgor Cyllid gyflwyno adroddiad ar y Mesur Arfaethedig. Cytunodd y pwyllgor hefyd na ddylid gohirio'r amser cau ar gyfer ystyriaeth Cyfnod 2 y Pwyllgor ar y Mesur ac mai 4 Gorffennaf 2008 fyddai'r dyddiad hwnnw.

**Papur eglurhaol gan y Gweinidog ac amserlen arfaethedig ar gyfer "Gorchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Cymhwysedd Deddfwriaethol) (Lles Cymdeithasol a Meysydd Eraill) 2008 "- BC(3)09-08(p5)**

4.2 Trafodododd y Pwyllgor Busnes y papurau ar "Orchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Cymhwysedd Deddfwriaethol) (Lles Cymdeithasol a Meysydd Eraill) 2008. "Nododd y pwyllgor mai teitl blaenorol y pwyllgor oedd "Gorchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Cymhwysedd Deddfwriaethol) (Rhif 3) 2007"," "a gyfeiriwyd at y Pwyllgor ar y Gorchymyn Arfaethedig ynghylch Plant sy'n Agored i Niwed i gynnal gwaith craffu cyn deddfu. Ar ôl ymgynghori ag adrannau Whitehall ynghylch y Gorchymyn a thrafod adroddiad y Pwyllgor ar y Gorchymyn Arfaethedig ynghylch Plant sy'n Agored i Niwed, darparwyd fersiwn diwygiedig i Ysgrifennydd Gwladol Cymru, '"Gorchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Cymhwysedd Deddfwriaethol) (Lles Cymdeithasol a Meysydd Eraill) 2008' "a gosodwyd hwn gerbron y Senedd ar 17 Mawrth 2008.

4.3 Cytunodd y Pwyllgor Busnes fod ystyried y Gorchymyn diwygiedig yn fater i'r Pwyllgor ar y Gorchymyn Arfaethedig, gan y byddai'r pwyllgor hwnnw yn dal i fodoli tan fod y Gorchymyn wedi'i gyflwyno. Fodd bynnag, mynegodd y Rheolwyr Busnes rai pryderon ynghylch y broses. Nid oeddent yn awyddus i'r pwyllgorau achosi oedi yn y broses ddeddfwriaethol a theimlent y dylai'r penderfyniad ynghylch a oedd newidiadau arwyddocaol neu beidio wedi'u gwneud i Orchymyn Arfaethedig fod yn fater i Swyddfa'r Llywydd. Nid oeddent yn teimlo bod rhagor o waith craffu gan bwyllgor yn angenrheidiol os oedd y fersiwn o'r Gorchymyn a gyflwynwyd i'r Senedd yn wahanol i'r un a gyflwynwyd i'r Cynulliad, gan y rhoddir ystyriaeth i'r drafft terfynol yn y cyfarfod llawn ac mae hynny'n rhoi cyfle digonol i fynegi unrhyw bryderon. Teimlai'r Rheolwyr Busnes hefyd y dylai'r pwyllgorau ar y gorchmynion ddod i ben ar ôl cyflwyno'u hadroddiadau, yn hytrach nag ar ôl cyflwyno'r Gorchymyn drafft. Cytunodd y Pwyllgor Busnes, pe bai'r Pwyllgor ar y Gorchymyn yn penderfynu derbyn gwahoddiad y Gweinidog i ailystyried y Gorchymyn penodol hwn, y dylai gyflwyno'i adroddiad erbyn 13 Mai 2008.

**Llythyr oddi wrth Jenny Randerson a phapur ar ei Mesur Arfaethaedig: "Y Mesur Arfaethedig Bwyta'n Iach mewn Ysgolion (Cymru) 2008" - BC(3)09-08(p6)**

4.4 Trafodododd y Pwyllgor Busnes gais gan Jenny Randerson i sefydlu pwyllgor i ystyried ei Mesur, '"Y Mesur Arfaethedig Bwyta'n Iach mewn Ysgolion'.  "Cytunodd y Pwyllgor Busnes y dylid sefydlu ac ethol y pwyllgor i ystyried y Mesur cyn gynted â phosibl. Cytunodd y pwyllgor hefyd y byddai'r amser cau ar gyfer cyflwyno adroddiad y pwyllgor 13 o wythnosau eistedd ar ôl sefydlu'r pwyllgor.

**Adroddiad a llythyr oddi wrth Gadeirydd y Pwyllgor ar y Gorchymyn Arfaethedig ynghylch Gofal Cartref - BC(3)09-08(p7)**

4.5 Nododd y pwyllgor adroddiad y "Pwyllgor ar y Gorchymyn Arfaethedig ynghylch Gofal Cartref, "a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 14 Mawrth 2008.

**YSGRIFENYDDIAETH Y PWYLLGOR BUSNES**